# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

## PENNOD 5

GWEITHREDU YN DILYN ADOLYGIAD

*Gweithredu anweinidogol*

### 38 Gweithredu newid i ffin cymuned

(1) Caiff y Comisiwn, ar ôl iddo gael adroddiad yn cynnwys argymhellion i newid oddi wrth brif gyngor mewn perthynas ag adolygiad a gynhaliwyd o dan adran 25—

(a) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion heb addasiadau,

(b) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion gyda'r addasiadau hynny y mae'r prif gyngor yn cytuno arnynt, neu

(c) yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 26(2)(b)(ii) neu (iii), gynnal ei adolygiad ei hun.

(2) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Comisiwn argymhellion y prif gyngor wedi dod i ben.

(3) Dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) sy'n cynnwys newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal.

(4) Rhaid i'r prif gyngor a wnaeth yr argymhellion roi i'r Comisiwn yr wybodaeth bellach honno mewn perthynas â'r argymhellion neu'r weithdrefn a ddilynwyd fel y bo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn rhesymol ofynnol.

**39 Gweithredu newid i drefniadau etholiadol cymuned**

(1) Caiff prif gyngor, drwy orchymyn, weithredu'r newidiadau a ddisgrifir mewn adroddiad a luniwyd gan y cyngor o dan adran 36(4).

(2) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) tan ddiwedd cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddodd y prif gyngor ei adroddiad.

(3) Caiff prif gyngor, ar ôl cael adroddiad sy'n cynnwys yr argymhellion ar gyfer newid oddi wrth y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 32—

(a) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion heb addasiadau,

(b) drwy orchymyn weithredu'r argymhellion gyda'r addasiadau hynny y cytunir arnynt â'r Comisiwn,

(c) penderfynu peidio â gweithredu a hysbysu'r Comisiwn yn unol â hynny.

(4) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (3) tan ddiwedd cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r cyngor yn cael yr adroddiad.

(5) Dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) neu (3) sy'n cynnwys newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal.

(6) Mae is-adran (7) yn gymwys—

(a) pan fo'r prif gyngor wedi hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gweithredu mewn cysylltiad â'r argymhellion, neu

(b) pan na fo'r prif gyngor wedi gwneud gorchymyn (gydag addasiadau neu hebddynt) o fewn y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cyngor argymhellion y Comisiwn.

(7) Caiff y Comisiwn ofyn i Weinidogion Cymru weithredu'r argymhellion o dan adran 37.